



Gallwch lawrlwytho'r lluniau yn rhad ac am ddim o www.freebibleimages.org ar ffurf PowerPoint, Keynote, JPEG neu PDF. Mae'r Cynllun Stori yma yn dangos be sy'n digwydd ym mhob rhan o'r hanes. Darllenwch yr hanes yn y Beibl ac wedyn penderfynwch sut dych chi am gyflwyno'r stori. Mae yna le i chi sgwennu nodiadau. Gallwch ddileu unrhyw luniau/sleidiau nad ydych chi am eu defnyddio, ac ychwanegu lluniau eich hun fel bydd angen.

Disgrifiad

Llun

Nodiadau

1 Brenhinoedd 1-2




- 1 Roedd y Brenin Dafydd wedi mynd yn hen ac yn wan. Dewisiwyd merch ifanc hardd o'r enw Abisag i ofalu amdano. Roedd ganddo nifer o feibion, ond roedd o wedi addo i Bathseba mai ei mab hi, Solomon, a fyddai'n frenin ar ei ôl.



- 2 Ond dyma Adoneia, mab Dafydd a Haggith yn cyhoeddi ei fod o am fod yn frenin. Felly, dyma fe'n casglu cerbydau a cheffylau iddo'i hun, a threfnu cael pum deg o warchodwyr personol.



-
- 3 Dyma Adoneia'n trafod gyda Joab, arweinydd y fyddin, a gydag Abiathar yr offeiriad. A dyma'r ddau yn ei gefnogi a'i helpu. Ond wnaeth Sadoc yr offeiriad, na Benaia, na Nathan y proffwyd, na Shimei, na Rei, na gwarchodlu personol Dafydd ddim ochri gydag Adoneia. Dyma Adoneia'n mynd i graig Socheleth sy'n agos i En-rogel, ac yn aberthu defaid, ychen a lloi wedi eu pesgi.



-
- 4 Roedd wedi gwahodd ei frodyr i gyd a holl swyddogion y brenin oedd yn dod o Jwda i ymuno ag ef. Ond doedd e ddim wedi gwahodd Nathan y proffwyd, na Benaia, na gwarchodlu personol Dafydd, na Solomon ei frawd chwaith.




-
- 5 Dyma Nathan yn dweud wrth Bathseba am gynllwyn Adoneia. Dwedodd wrthi, "Mi roi cyngor i ti sut i achub dy fywyd dy hun a bywyd Solomon. Dos at Dafydd a dweud wrtho, 'Fy mrenin, syr, wnest ti ddim addo i mi mai fy mab i, Solomon fyddai'n frenin ar dy ôl di? Dwedaist mai fe fyddai'n eistedd ar dy orsedd di. Felly sut bod Adoneia'n frenin?'



-
- 6 Felly dyma Bathseba'n mynd i ystafell y brenin ac yn plygu i lawr o'i flaen. Dwedodd wrtho am gynllwynio Adoneia, ac yna dwedodd, "Mae Israel gyfan yn disgwyl i ti ddweud wrthyn nhw pwy sydd i deyrnasu ar dy ôl di. Os na wnei di, ar ôl i ti farw bydda i a Solomon yn cael ein trin fel troseddwr." Cyrhaeddodd Nathan a chefnogi Bathseba.



-
- 7 Yna dyma'r Brenin Dafydd yn galw Sadoc yr offeiriad, Nathan y proffwyd a Benaia fab Jehoiada. Wedi iddyn nhw ddod, dyma'r brenin yn dweud wrthyn nhw, "Rhowch Solomon i farchogaeth ar gefn fy mul i, ac ewch â fe i lawr i Gihon."



-
- 8 Yn Gihon eneiiodd Sadoc yr offeiriad a Nathan y proffwyd Solomon yn frenin ar Israel. Yna chwythwyd y corn hwrdd a gweiddi, 'Hir oes i'r Brenin Solomon!'



-
- 9 A dyma pawb yn ei ddilyn yn ôl i Jerwsalem, yn canu offerynnau chwyth a gwneud cymaint o stŵr wrth ddathlu nes bod y ddaear yn atseinio. Clywodd Adoneia yr holl sŵn, ac roedd yn meddwl mai newyddion da oedd e am glywed.



-
- 10 Ond dyma Jonathan, fab Abiathar yr offeiriad yn dweud mai newyddion drwg oedd ganddo - fod Solomon wedi ei eneinio yn frenin Israel. Dwedodd fod Solomon yn eistedd ar orsedd y brenin yn Jerwsalem.



-
- 11 Dyma bawb oedd Adoneia wedi eu gwahodd ato yn panicio, codi ar eu traed a gwasgaru i bob cyfeiriad. Roedd gan Adoneia ei hun ofn Solomon hefyd, a dyma fe'n mynd a gfael yng nghyrn yr allor. Pan glywodd Solomon hyn dwedodd, "Os bydd e'n ffyddlon, fydd dim blewyn ar ei ben yn cael niwed. Ond os bydd e'n gwneud rhywbeth drwg, bydd yn marw."



-
- 12 Felly dyma Solomon yn anfon dynion i ddod ag e i lawr o'r allor, a dyma fe'n dod ac ymgrymu i lawr o flaen Solomon. A dyma Solomon yn dweud wrtho, "Dos adre."



-
- 13 Pan oedd Dafydd ar fin marw dwedodd wrth Solomon, "Rhaid i ti fod yn gryf a dangos dy fod yn ddyn! Gwna beth mae'r ARGLWYDD dy Dduw yn ei ofyn gen ti, a byw fel mae e eisiau. Ac wedyn bydd yr ARGLWYDD yn cadw ei addewid i mi: 'Os bydd dy ddisgynyddion di yn gwylio eu ffyrdd ac yn gwneud eu gorau glas i fyw'n ffyddlon i mi, yna bydd un o dy deulu di ar orsedd Israel am byth.' "



-
- 14 Pan fuodd Dafydd farw cafodd ei gladdu yn Jerwsalem (Dinas Dafydd). Roedd wedi bod yn frenin ar Israel am bedwar deg o flynyddoedd. Yna dyma Solomon yn dod yn frenin yn lle ei dad, a gwneud y deyrnas yn ddiogel ac yn gryf.



15 Cyfieithwyd gan
www.beibl.net



These illustrations are the copyright of Sweet Publishing and licensed
by FreeBibleImages for free download under the terms of the
Creative Commons Attribution-ShareAlike 3.0 unported license.

www.freebibleimages.org
